# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Perthyn (Powys)**

**Perthyn**
**Llys Vivian**
**Llys Felin Newydd**
**Abertawe**
**SA7 9FG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Perthyn (Powys)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Perthyn |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Hydref 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn cael cymorth effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i fyw mor annibynnol â phosibl. Caiff y bobl eu cefnogi gan staff medrus a phrofiadol, y maent wedi meithrin cydberthynas gadarnhaol a deallus â nhw. Mae'r bobl yn cael eu hannog i gael eu cynnwys cymaint â phosibl yn y penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth.

Mae tîm arwain cryf sy'n cynnwys rheolwyr rhanbarthol, cynllun a chynorthwyol, sydd oll yn hawdd mynd atynt ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y bobl sy'n defnyddio ac yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol ac yn cwblhau adroddiadau gyda chamau gweithredu penodol i wella ansawdd, yn dilyn eu hymweliadau chwarterol.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sydd wedi'u personoli'n dda i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r rheolwyr yn cynnwys y bobl, eu cynrychiolwyr, gweithwyr cymorth a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn llawn wrth ddatblygu ac adolygu cynlluniau personol, sy'n canolbwyntio ar y pethau sydd o bwys i bob unigolyn.

Y bobl sy'n arwain y penderfyniadau sy'n effeithio eu bywydau a chânt eu cefnogi i weithio tuag at eu nodau penodol. Mae'r gweithwyr cymorth yn adnabod y bobl yn dda ac yn cymryd eu hamser i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Mae'r staff yn ystyried sefyllfa pob person ac yn rhoi cymorth gweithredol i'r bobl yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed gan fod y prosesau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir.  Mae'r gweithwyr cymorth yn cael sesiynau sefydlu cynhwysfawr a chyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus ac yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn gwybod sut i amddiffyn y bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon.

Mae gan y bobl lais oherwydd bydd y darparwr yn defnyddio systemau hygyrch i gasglu adborth ganddynt am y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnwys yr unigolion yn yr ymweliadau Rheoliad 73 chwarterol. Caiff y wybodaeth o'u hymweliadau ei gofnodi mewn adroddiad gyda chynllun gweithredu clir a chaiff ei defnyddio i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis.

Nid yw'r gwasanaeth yn darparu cynnig rhagweithiol yr iaith Gymraeg ond maent yn defnyddio llawer o ddulliau creadigol a hygyrch i gyfathrebu â'r bobl ag anawsterau cyfathrebu.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sydd wedi'u personoli i fyw yn eu cartrefi eu hunain ac i gynnal eu cysylltiadau cymdeithasol. Mae tîm o staff medrus yn adnabod y bobl yn dda, a gwnaethant siarad yn frwdfrydig am eu rôl ac am y bobl maent yn rhoi cymorth iddynt. Dywedodd y gweithwyr cymorth wrthym, *"I love the people we support, they are amazing and make the job"* ac *"it's great helping people work towards the things they want to do".* Caiff y gwasanaeth ei gefnogi gan uwch-reolwr, sy'n sicrhau bod y bobl yn mynychu apwyntiadau iechyd a bod eu meddyginiaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Caiff y gweithwyr cymorth eu harwain gan gynlluniau personol cywir a chyfredol electronig sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'r bobl. Mae'r staff yn dod i adnabod y bobl yn dda, yn deall eu hanghenion ac yn eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl. Dywedodd un gweithiwr wrthym *"The people we support set their own goals and we help them get there, step by step*". Mae gan y darparwr swyddog dynodedig sy'n annog y bobl i aros fel aelodau gweithredol o'u cymuned leol, ac i ymgymryd â phrofiadau newydd. Mae'r bobl yn gwerthu cynnyrch yn y farchnad, yn mynychu digwyddiadau chwaraeon, yn mynd i'r coleg ac yn cynnal cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau.

Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn llawn wrth ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol eu hunain, sy'n canolbwyntio ar yr hyn y maent am ei gyflawni. Mae'r rheolwyr hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr yr unigolion, y gweithwyr cymorth a gweithwyr proffesiynol allanol i sicrhau bod y wybodaeth yn ddefnyddiol. Wrth drafod y cynlluniau personol, dywedodd gweithiwr cymorth wrthym, "*It's great being involved in the PCP review and seeing people open up about what they want to do".* Mae nodiadau dyddiol yn cofnodi'r gofal a'r cymorth sydd wedi'u cwblhau gyda gwybodaeth o safbwynt yr unigolyn.

Mae niferoedd digonol o weithwyr medrus sy'n llawn cymhelliant ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae llawer o'r gweithwyr gofal wedi adnabod y bobl ers blynyddoedd ac yn deall eu sefyllfaoedd ac wedi meithrin cydberthynasau cadarnhaol â nhw.

Mae gan y darparwr Ddatganiad o Ddiben a Chanllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth cyfredol sydd ar gael i'r bobl a'u cynrychiolwyr. Mae'r ddogfennaeth allweddol, megis sut i wneud cwyn, a chynllun tair blynedd y darparwr wedi cael ei addasu i ffurf fwy hygyrch. Mae polisïau ar waith i arwain y staff, a gweithdrefnau i hyrwyddo arferion diogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella'r gwasanaeth. Caiff yr uwch-reolwyr fynediad at wybodaeth electronig i wirio ei ansawdd a gwneud argymhellion. Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob chwarter i drafod materion ansawdd â'r bobl a'u gweithwyr cymorth. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym *“She’s (RI) lovely, so easy to talk to and makes sure we know we can call her and she really is interested in the people we support”.* Defnyddia'r darparwr wybodaeth hygyrch i gefnogi cyfathrebu ac i annog y bobl i rannu eu barn ar ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis yn defnyddio'r adborth hwn gan y bobl, data o systemau cydymffurfio, a gwybodaeth o archwiliadau mewnol.

Caiff y gwasanaeth ei arwain yn dda gan dîm o reolwyr rhanbarthol, rheolwyr cynllun a'u cynorthwywyr. Mae'r tîm arwain yn canolbwyntio ar yr unigolion ac yn galluogi'r gweithwyr cymorth i annog y bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r bobl yn adnabod yr holl reolwyr yn y gwasanaeth yn dda, ac yn cael sgyrsiau cyfeillgar ac agored â nhw. Mae'r gweithwyr cymorth yn disgrifio eu rheolwyr fel rhai cefnogol, sy'n hawdd mynd atynt, a dywedodd un *“The managers really do listen and try and sort out any problems we have”.*

Caiff y gweithwyr cymorth eu goruchwylio'n rheolaidd, a byddant yn cael archwiliad blynyddol er mwyn helpu i ddatblygu eu sgiliau proffesiynol. Mae'r staff yn gwerthfawrogi pa mor gefnogol a hawdd mynd atynt yw eu rheolwyr. Dywedodd un wrthym *"My manager knows me and if I have a problem I just go and talk to her and we sort it out there and then rather than wait for supervision”.* Mae'r uwch-reolwyr yn cynnal amrywiaeth o ymweliadau i wirio ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r bobl. Wrth drafod arweinyddiaeth y gwasanaeth, dywedodd gweithiwr cymorth *"from top to bottom all the staff at Perthyn focus on the people we support”.* Dangosodd trafodaethau â'r gweithwyr gofal bod dealltwriaeth dda ynghylch rhoi gwybod am bryderon a diogelu. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth dda ohonynt.

Mae adran Adnoddau Dynol y darparwr yn sicrhau bod y gweithdrefnau recriwtio yn effeithiol ac yn cael eu cadw atynt. Caiff gwiriadau cyn cyflogi megis geirdaon, hawl i weithio a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cynnal cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Caiff staff newydd gyfnod sefydlu cynhwysfawr ac maent yn dod i adnabod y bobl cyn iddynt weithio'n annibynnol. Mae'r darparwr wedi sicrhau bod yr hyfforddiant gorfodol yn benodol i'r person, yn gyfredol ac yn helpu'r gweithwyr ddiwallu anghenion unigol y bobl. Mae'r gweithwyr wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn hybu eu sgiliau pellach drwy gymwysterau proffesiynol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/12/2023